

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymraeg Dewi Sant

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn gymuned hapus, ofalgar a theuluol. Mae gan y pennaeth dros dro ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau hynod gadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae hyn yn rhinwedd nodedig o'r ysgol.

Mae angerdd yr holl staff at ddatblygu agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu yn sicrhau amgylchedd gynhwysol yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer diwallu anghenion lles disgyblion yn gryfder. Golyga hyn fod y rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus. Mae'r ysgol gyfan yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac mae disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai all gael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau llafar, rhifedd a digidol yn effeithiol mewn amrywiaeth gyfoethog o brofiadau ysgogol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n cynllunio digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn hynod effeithiol.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn darparu gweithgareddau dysgu sydd wedi eu cynllunio'n fedrus ar eu cyfer. Maent yn adeiladu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn drefnus er mwyn sicrhau dilyniant yn nysgu'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu syniadau ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, er enghraifft wrth gynllunio gweithgareddau yn ymwneud â'u themâu dysgu.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y meysydd dysgu**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.